

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Dywed Tripp (1993 t.8) "Incidents happen, but critical incidents are produced by the way we look at a situation: a critical incident is an interpretation of the significance of an event".

Yn yr aseiniad yma fe edrychwn ar achos critigol gan ystyried y technegau addysgol a chafwyd eu arsylwi. Trafodwn y pedogogaidd tu hwnt i'r thechengau ac yr effaith neu ddilynwad a chafwynt ar yr digwyddiad.

Yn aml mae argymhellion sydd yn seiliedig ar ymchwil addysgol yn arwyddocaol, maent yn gallu awgrymu fod newid ymarweddiad addysgu yn arwain at canlyniadau dymunol yn y dosbarth. Mae athrawon profesiynol eisiau eu gwaith fod yn seiliedig ar ymchwil, ond mae newid dulliau gyfarwydd yn anodd, yn anghyfforddus ac hefyd, gall fod yn beryglus oherwydd mae e'n cymrydd amser i fod yn effiethiol wrth defnyddio sgiliau a thechnegau newydd. (Taber, 2007, t.17).

Arsylwi

Wrth arsylwi a creu astudiaeth achos rhaid ystyried y rheol moeseg canlynol:

"The confidential and anonymous treatment of participants' data is considered the norm for the conduct of research. Researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity."

BERA 2018, t.21

Trwy gydol y cyfnod arsylwi pwysig oedd sicrhau diogelu gwybodaeth personol yr ysgol, addysgwyr neu dysgwyr i gadw tystiolaeth yr arsylwi yn amhersonol ac er dilyn rheolau diogelu data. Yn y modd hwn gelwir yr ysgol arsylwi yn Ysgol A. Mae Ysgol A yn ardal trefol yn sir Gaerfyrddin efo 474 o ddisgyblion. Mae 8.2% o blant yn cael prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Presenoldeb y ddysgwyr yw 94%. Daw 87% o'r

disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg yn brif iaith. Yn y tair mlynedd ddiwethaf newidwyd yr ysgol o fod yn un ddwy-ieithog i ysgol Gymraeg ar y cyfan. Effaith hwn yw fod pwysicrwydd y iaith Cymraeg wedi cynyddu ac yn bwyslais enfawr ar bob wers. Mae 25% o ddysgwyr efo anghenion ychwanegol yn yr ysgol gan cynnwys amrywiaith o'r fathau o anghenion ac hefyd gerwindeb yr angenhion. Nid oes llawer o ddysgywr efo anghenion difrifol. (Adroddiad Estyn a Fy Ysgol Leol)

Cyflawnwyd y sesiynau arsylwi rhwng dau ddosbarth. Yn y dosbarth cyntaf (dosbarth X) 28 o ddysgwyr blwyddyn 1 oedd. Yn yr ail dosbarth (dosbarth Y) 30 o ddysgwyr oedd, efo cymysgedd o ddysgwyr blwyddyn 1 a 2. Gan fod y ddau dosbarth yn cynnwys dysgwyr blwyddyn 1 maent yn cynllunio ar y cyd ac yn dilyn yr un themai. Er hyn mae'r gwersi yn seiliedig ar gallu y ddysgwyr sydd yn wahanol. Mae'r dau ddosbarth wedi ei grwpio yn ol gallu.

Methodoleg

Cyn cychwyn ar cyfnod o arsylwi mewn lleoliad addysgol rhaid ystyried gofynion y dasg ac hefyd y methodoleg a fydd yn cynorthwyo'r arsylwi. Mae fwy nag un ffordd o arsylwi, trwy gydol y cyfnod rhaid defnyddio amrywiaith o thechnegau. Rhaid trin arsylwi fel pob ffordd arall o gasglu wybodaeth, mae gofyn eich fod yn hyblug ac yn barod i addasu wrth fynd ati. Dywed yn adroddiad gan Estyn:

“Mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn fwyaf effeithiol mewn ysgolion sydd a gweledigaeth strategol glir o sut i gyflawni addysgu a dysgu o answadd uchel, diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus a gweithio mewn tim.” (Estyn, 2014, Arsywli ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, t.6.)

Pellach yn yr adroddiad mae'r prif ganfyddiadau ar arsylwi yn y dosbarth gan cynnwys awgrymiadau ymarferol, megis, sicrhau fod yr addysgwr ac yr arsyllwr yn cael cyfle i drafod ffocws yr arsylwi. Fydd hyn yn cyfle hefyd i'r addysgwr rhannu gwybodaeth perthnasol am y dosbarth neu'r wers. Gall y wybodaeth yma rhoi safbwynt gwahanol ar yr hyn yr ydych yn arsylwi. Ni fydd cyfle pob sesiwn i gael sgwrs gyda'r addysgwr cyn wneud yr arsylwi ac felly rhaid ystyried hyn wrth dadansoddi'r hyn yr ydych yn gweld a chlywed.

Wrth arsylwi gallwch defnyddio arsylwi cyfranwyr neu dewis i beidio a chyfranogi. Diffiniad arsylwi cyfranwyr yw “trefn arsylwi pan fo'r arsyllwr ynghanol y rhai sy'n cael eu harsylwi e.e., byw gyda'r gorilas yn y gwyllt. (Geiriadur Termiau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol). Wrth dewis i beidio a chyfranogi rydych yn dewis i arsylwi o'r ochrau, fel petai yn edrych mewn trwy'r ffenest, neu yn cleren ar y wal. “In principle, observers can be as unobtrusive as possible and avoid interacting with the class at all. The ultimate observer aims to be

'invisible' so that their presence does not influence what happens in the class" (Taber, tud 151). Nid yw hyn yn bosib bob tro tu fewn awyrgylch y dosbarth gan fod natur y ddysgwyr yn un chwilfrydig. Pwysig yw rhannu eich methodoleg gyda'r addysgwr fel y gallent cyflwyno eich presenoldeb yn y dosbarth mewn modd priodol i'r techneg a defnyddir i arsylwi.

Yn dilyn hyn rhaid ystyried yr 'Effaith Hawthorne', sef y newid sydd yn digwydd wrth ymateb i fod yn ymwybodol o'r ffaith fod rhywun yn gwyllo chi:

"In an experiment, a Hawthorne effect would refer to an effect that happens in a desired direction, but not because of the expected reason. The positive effect happens not because of a variable being modified or introduced, but rather the effect takes place because the participants are well aware that they are being watched."

(Communicationtheory.org/hawthorne-effect/)

Yn ogystal a hyn fydd angen dewis y modd o nodi yr hyn yr ydych yn arsylwi. Mae yna ystod eang o moddau o wneud nodiadau a chofnodi'r digwyddiadau. Er enghraifft sociogram, siartiau symud, taflen wirio, cofnod ysgrifenedig i enwi ond rhai. Wrth darganfod eich modd priodol falle dysgu mentro-a-methu fydd yn helpu. Cyn arsylwi mewn dosbarth syniad yw i arbrofi gyda'r technegau arsylwi wrth wyllo fideos gwersi ar y we, gall hwn arwain at y modd addas i chi.

Un modd o myfyrio ar yr hyn yr ydych yn arsylwi yw i ddefnyddio'r cwestiynau a ysgrifenyddwyd gan Harry Fletcher-Wood:

"Am beth yr wyf yn edrych yn yr arsylwad hwn?"

- *Diwylliant Dosbarth: A yw'r ddysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?*
- *Amcanion: A oes pwrpas clir i'r wers? A yw'r gweithgareddau gwersi yn hyrwyddo'r pwrpas hwn?*
- *Cyfeiriad: A yw ddysgwyr yn glir ynghylch yr hyn maen nhw'n eu wneud a sut i'w wneud yn dda?*
- *Mynediad a Her: A yw'r holl ddysgwyr yn gallu cymryd rhan yn y wers? A yw pob ddysgwr yn cael ei herio?*
- *Asesu: Sut mae'r athro neu athrawes yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio wrth addysgu?*

- *Manylion penodol: A oes momentau penodol ac enghreifftiau y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?"*

(Ticked Off, 2016, Harry Fletcher-Wood)

Addasiad o'r cwestiynau yma a ddefnyddiwyd trwy gydol y broses ac mae dogfennau wedi ei gyflwyno yn yr atodiadau (1).

Wrth i (Tripp, t.27) edrych ar ei canlyniadau ar achosion critigol defnyddiodd pedwar modd o asesu. Yn yr aseiniad yma defnyddir dadansoddiad diagnostig fel rhan o'r gwethuso, sef:

Gwybodaeth sydd angen	Cwestiynau a gofynwyd	Pobl ynglwm a'r sefyllfa
Disgrifiadol	Beth digwyddodd?	Pwy oedd yn ymwneud a hyn?
Achlysurol	Beth achosodd e i ddigwydd?	Pwy wnaeth?
Effaith	Beth mae e'n gwneud?	I bwy?
Affaith	Sut mae e'n teimlo?	I bwy?
Semantig	Beth mae e'n golygu?	I bwy?
Eglurhaol	Pam oedd (mae) e'n digwydd?	Gyda phwy?

Pedwar Diben

Dywed Donaldson yn ei adroddiad ('Dyfodol Llwyddianus, 2015')

"Mae'n werth nodi bod peryglon posibl a all gyfyngu ar y berthynas rhwng y nodau neu ddibenion cyffredinol a'r fframwaith cwricwlwm ei hun. Mae Adolygiad Caergrawnt o Addysg Gynradd yn seinio'r rhybudd canlynol: '...attempts to define official aims for the education system as a whole have a poor track record ... and, more often than not, have been added to policy to give it a cloak of consensus...'" (Cambridge Primary Review (2010) Children, their World, their Education: Final Report and Recommendations of the Cambridge Primary Review Routledge)

Serch hyn mae Donaldson wedi llwyddo i dadansoddi ei ymchwil a creu pedwar diben sydd yn cyfuno gyda'i deuddeg egwyddor fel sylfaen y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Donaldson wedi ceisio symud wrth fanylebau cwricwlwm wedi'u seilio ar ddisgyblaethau pwnc traddodiadol. Symudwyd yn lle tuag at llunio dibenion yn seiliedig ar sgiliau allweddol, sgiliau bywyd a gallu y ddysgwyr (Donaldson, t.22). Gweler y pedwar diben isod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Wrth ystyried y pedwar diben edrychwn ar yr achos critigol a arsylwyd yn ystod y cyfnod arsylwi ar gyfer yr aseiniad yma. Arsylwyd ar pedwar gwers, fe welwch fod nodiadau y wersi yma wedi eu chynwys yn y cyfeirnodau isod. Dewiswyd un achos i astudio ymhellach. Nodir taw cyflwyniad newydd a unigryw oedd, tasg penodol ynglun a gwasanaeth diolchgarwch a oedd am ddigwydd mewn pythefnos. Y dasg oedd i greu poster i hybu pobl i mynychu a'r gwasanaeth. Nid oedd y cynorthwydd yn presenol yn ystod y wers yma. Cyflwynodd yr addysgwr yn arsylwr fel ymwelwr a oedd am weld eu gwaith da. Gan fod y cynorthwydd yn absenol o'r wers, gofynodd yr addysgwr i'r arsylwr cymryd rhan yn y dasg ar ol y cyflwyniad trwy cynorthwyo rhai ddysgwyr. Yn y sefyllfa yma felly rhaid fod yn arsylwr cyfranol. Wedi dweud hyn arsylwyd yr achos critigol yn ystod y cyflwyniad ac felly nid oedd yr arsylwr yn cymryd rol actif yn y wers.

Dyma'r addysgwr yn siarad mewn llais tawel ac esmwyth. Yn gyntaf holodd i'r ddysgwyr yn gyffredinol am pa gwybodaeth fydd eisiau cynnwys yn y poster. I roi gynnig ar ateb rhoddwyd y ddysgwyr eu dwylo i fyny ac fe ddewiswyd yr addysgwr gwahanol dysgwyr i ateb. Defnyddiwyd cymysgedd o cwestiynau agored a caeedig trwy gydol y cyflwyniad. Gofynodd cwestiwn yn benodol i bedwar unigolyn a oedd heb codi llaw. Tra yn aros i'r ateb ni chymerwyd unrhyw sylw o'r ddysgwyr eraill a oedd yn cesio dal sylw. Roedd y ffocws i gyd ar yr unigolyn a oedd yn cael amser i feddwl am yr ateb. Cafodd hyn effaith mawr ar yr unigolion, yn enwedig un dysgwr a galwyd yn 'dysgwr A' am pwrpas yr aseiniad yma. Roedd dysgwr A heb rhoi cynnig ar un ateb hyd at hyn, yr oeddent yn edrych lawr yn aml ac yn osgoi cyswllt llygaid yr addysgwr. Gofynwyd y cwestiwn ac fe aroswyd am pymtheg eiliad nes i'r ddysgwr ateb, roedd yn amlwg i weld fod yr unigolyn yn gweithio'n galed i tynnu'r gwybodaeth allan o'r ymennydd trwy edrych i fyny ac i'r ochr. Atebodd plentyn A yn gywir. Cafodd clod wrth yr addysgwr am cael yr ateb yn gywir a chafodd y dosbarth pwyntiau gwobr oherwydd yr ymdrech gan plentyn A. Trodd dysgwr arall at plentyn A, rhoddwyd pawen lawen a chlod am ennill y pwyntiau gwobr i'r dosbarth. Hapus iawn oedd plentyn A.

Gallwch ddweud fod yr achos yma yn plethu efo'r diben o ddatblygu unigolion iach a hyderus, yn enwedig yn "meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi" (tud.30). Rhaid hefyd cydnabod fod testun y wers yn cyfranu at

ddatblygu pobl ifanc sydd yn “ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a’r byd yn awr ac yn y gorffennol” (tud.30).

Mae Ysgol A yn y broses o fabwysiadu dibenion ac egwyddorion y cwricwlwm newydd. Yn ogystal a hyn gwelir fod y wers yn taro ar rhai ystodau a sgiliau y cwricwlwm presenol.

Yn y maes datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, cewch yr ystod canlynol:

Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth drwy gymryd rhan mewn ystod o brofiadau, gan gynnwys: gweithgareddau sy’n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a’u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a’r byd

Yn ogystal a hyn gwelwyd y maes datblygiad moesol ac ysbrydol. Un o’r sgiliau allweddol o dan y maes yma yw:

Dylid rhoi cyfleoedd i blant defnyddio storïau neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau ynghylch pam y mae rhai pethau’n arbennig

Cwricwlwm Cymru (2008)(tud12-13)

Adolygiad Llenyddiaeth

Wrth dadansoddi yr achos critigol cafodd sawl testun trafod ei ddarganfod, yn yr adroddiad yma y meysydd ffocws fydd techneg cwestiynu, llais y plenty, a’r defnydd o canmol yn y dosbarth. Edrychwn yn gyntaf ar effaith y cwestiynu ar y wers a’r ddysgwyr.

Gwelwn yn gyntaf fod trefn y cwestiynu yn dilyn tacsonomi Bloom, sef cwestiynau ar gyfer meddwl yn gritigol. Mae’r lefelau o cwestiynu yn cynnwys:

1. Gwybodaeth – yn tynnu nol y gwybodaeth maent wedi cofio.
2. Dealltwriaeth – cadarnhau dealltwriaeth trwy dehongli a trefnu y gwybodaeth.
3. Cymhwysiad – cymhwyso’r dealltwriaeth i sefyllfa neu cyd-destun arall.
4. Dadansoddiad – torri’r gwybodaeth lawr a dadansoddi y cydrannau.
5. Synthesis – y gallu i intergreiddio a cyfuno cysyniadau a’u ail drefnu mewn ffordd gwahanol.
6. Gwerthusiad – y gallu i feirniadu, amddiffyn neu cefnogi eich safbwynt.

(Omar et al., 2011)

Esiampl nodedig o hyn oedd y trafod o gwmpas dealltwriaeth y testun, sef gwasanaeth diolchgarwch. Dechreuodd llif y wers newid, yn lle fod yr addysgwyr yn gofyn y cwestiynau i gyd, daeth yn amlwg fod y testun yn un oedd yn codi cwestiynau i'r dysgwyr hefyd. O ganlyniad cafwyd amser lle oedd y dysgwyr yn cwestiynu, er enghraifft, roedd pob person yn talu £1 i mynegu a'r gwasanaeth ac roedd yr arian yn mynd tuag at elusen lleol. Gofynnodd dysgwr beth oedd elusen a dyna'r sgwrs yn troi tuag at moesau a dealltwriaeth y byd. Mae Donaldson (2015) yn cynnwys disgrifiad o addysgu fel modd o tynnu'r by mewn i ffocws. Dywed hefyd dylasai addysgu fod yn perthnasol i'r byd tu allan yr ysgol. Dyma beth oedd yn digwydd yn yr achos yma. Nid oedd gofyn yn y wers yma i amddiffyn neu i cefnogi eu safbwynt ynglun a'r dasg. Serch hynny roedd y sgwrs moeseg yn galw am gwerthusiad efo'r dysgwyr yn trafod pwysigrwydd cael elusennau ledled y byd yn ogystal a lleol.

Gallwch dadleu fod yr addysgwyr yn arwain y wers ac nid y dysgwyr, mae hwn yn cyferbyniad i syniadau Susan Isaacs a oedd yn anelu at gadael y ddysgwyr ffurfio llwybr dysgu eu hunain. Rol yr addysgwyr oedd i hwyluso'r dysgu ac nid i arwain. Yn ogystal a hyn mi fyddai trefn y wers a'r dosbarth yn gyferbynu a'r syniadau oedd gan Douglas Barnes (1975) a ysgrifennodd am patrymau mewn dosbarth, dywed fod rheolau ynglun a pwy sy'n siarad a pwy, sut a phryd i siarad. Mae e'n amlwg i weld yn ol yr achos yma y mae hynny yn wir. Mae Barnes hefyd yn son fod un addysgwyr yn y dosbarth i gymharu a sawl plentyn ond taw'r addysgwyr yna sydd yn siarad fwyaf. Dywed am y nifer eang o cwestiynau a'r pwyslais ar ateb nid yn unig yn gywir ond yn gloi hefyd. Dyma lle mae'r achos critigol yn wahanol i'r hyn a welwyd gan Barnes wrth arsylwi. Nodwyd fod yr amser arferol y mae addysgwyr yn aros am ateb ar ol gofyn cwestiwn yw 0.9 eiliad. Yn yr arsylwi fe wnaeth yr addysgwyr aros hyd at pymtheg eiliad am ateb wrth rhai unigolion. Os wnaeth y dysgwr cynnig ateb anghywir, yn lle gofyn i rhywun arall mi wnaeth scaffaldio'r gwybodaeth nes bod yr un dysgwr yn rhoi ateb cywir. Effaith hyn oedd codi hunan hyder yr unigolion yma fel byddai Donaldson (2015) yn cytuno. Gallwch ddweud fod hyn yn anwybyddu llais y dysgwyr eraill ond roedd effaith yr amser aros yn un positif ar yr unigolion.

Awgryma Pritchard (2009) fod lluniadaeth cymdeithasol yn rhoi pwyslais ar iath fel rhan o broses datblygiad deallusol. Yn bellach, mae deialog yw'r hyn sydd yn cefnogi'r iaith trwy rhannu a dadansoddi syniadau. Dywed Pritchard pellach fod rol yr addysgwyr yn un o cadw momentwm y deialog ac yn cefnogi dealltwriawth trwy scaffaldio gwybodaeth a dealltwriaeth. Arsylwyd y scaffaldio hyn trwy gydol y wers wrth i'r addysgwyr parhau i asesu dealltwriaeth trwy cwestiynu effeithiol. Cadwyd y momentwm trwy sgwrs egniol ac hefyd y defnydd o hiwmor. Dywed Mora, Weaver, Lindo (2015) bod eu herthygl yn ymwneud â "defnyddiau cydweithredol, argyhoeddiadol, mwy cynhyrchiol o hiwmor fel offeryn addysgiadol, yn enwedig fel offeryn i ennyn dadl a thrafodaeth materion cymdeithasol a diwylliannol cyfoes

ac i annog ymwybyddiaeth gymdeithasol a chydwybod, neu ymwybyddiaeth feirniadol.” Fe welwyd yn yr achos yma fod hiwmor wedi cael ei defnyddio i tynnu'r gwybodaeth priodol o'r dysgwyr ac hefyd i drafod y testun o'r gwasanaeth. Wrth ystyried oedran y dysgwyr, dim ond un gwasanaeth o'r fath yma byddent wedi fod yn rhan ohonno. Ac felly welwn yr addysgwr yn defnyddio hiwmor i lleihau y gofod oedd gyda rhai dysgwyr am cymryd rhan yn gwasanaeth o flaen oedolion ac eu chyfoedion.

Fel welwn, defnyddiwyd hiwmor i newid teimladau dysgwyr ynglun a testun neu digwyddiad. Mae hyn yn gallu annog rhai i holi fwy ynglun a'r hyn yr ydyn yn trafod. Cawn glywed llais y plentyn yn y modd yma, sydd yn seiliedig ar teimladau ac yn anelu at trafodaeth iechyd a lles. Gwelwn fod y dasg yn un seiliedig ar gwasanaeth crefyddol. Mae e'n bwysig i nodi nid oedd llawer o sgwrs ynglun a crefydd yn y wers yma, pwyslais oedd ar fod yn ddiolchgar am yr hyn yr ydynt yn cael. Roedd son yn y wers am hawliau'r plant, hawl y mis oedd erthygl 28 “eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol” (Llywodraeth Cymru 2015). Yn yr un modd nid oedd llawer o cwestiynu ynglun a hyn ond fwy o rhannu gwybodaeth a'r dysgwyr yn derbyn hyn yn arwynebol. Ni ellir gwadu fod y trafodaeth a chafwyd ynglun a elusennau yn un bwysig fel dywed Donaldson mae e'n cyfranu at sefydlu credoau moesegol. Fodd bynnag byddai Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru(2019) yn disgwyl fwy o drafodaeth “ *Our national mission places wellbeing at the core of our new curriculum, supporting our children and young people to become healthy confident individuals, who are building their mental and emotional well-being by developing confidence, resilience and empathy*” Dywed hwn wrth ymateb i dystiolaeth o elusen Barnados fod y nifer o blant yn gofyn am cymorth wedi codi 56% yn y flwyddyn diwethaf. A fyddai fwy o bwyslais yn y dyfodol ar trafodaeth iechyd a lles? Yn ol Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru (2015) dyna yw'r nod. Lle mae pwyslais yn y dogfen gan Holland ar iechyd meddwl plant a gwranddo ar plant mae trafodaeth ynglun a achosion y salwch meddwl megis bwliau a seiberfwlio. Mae Wringe (2007, pen 3) yn cwestiynu a yw'n bosib trafod moesoldeb her crefydd a beth yw'r effaith ar y cenhedlaeth yma. Awgrymir ein fod yn gwethfawrogi beirniadaeth a meddwl annibynol, ac felly fod y gwerthoedd yma yn arwain ni i gwrthod credoau crefyddol. Mae diben Donaldson yn awgrymu for credoau ysbrydol a moesegol yn cael ei meithrin yn ysgolion i ddatblygu unigolion iach a hyderus.

Awgryma uchod fod hiwmor yn dull o hybu hyder, beth wedyn am y ddefnydd o canmol a clod? Gwelwn fod clod a pwyntiau gwobr yn cael ei rhoi i plentyn A am ateb yn gywir, a'r effaith oedd fwy o glod wrth ei gymdogion. Ar a naill law mae'r unigolyn yn hapus ac yn falch, ar y llaw arall beth am y dysgwyr eraill a wnaeth ateb yn gywir? Dywed Pritchard (2009) “In the context of classrooms, praise, house points or the freedom to choose an activity are all used in different contexts as rewards for desirable behaviour”. Ymhellach mae

e'n awgrymu fod atgyfnerthiad cadarnhaol yn dull bwerus i rheoli ymddygiad pobl ac anifeiliaid. Defnyddir esiampyl Pavlov a'i theori o 'cyflyru clasigol' i gefnogi hyn. Ni ellir gwadu fod atgyfnerthiad cadarnhaol yn bwysig mewn awyrgylch dysgu, fodd bynnag mae Pritchard yn cyfaddef fod defnyddio dulliau ymddygiadol yn gallu cael effaith negyddol os yw'r ddysgwyr wedi eu ysgogi yn barod, gall arwain at colli diddordeb yn y pwnc neu testun. Gall canmol unigolyn cael effaith negyddol ar eraill yn y dosbarth. Dywed Coe et al. (2014 tud.22) "Praise for students may be seen as affirming and positive, but a number of studies suggest that the wrong kinds of praise can be very harmful to learning". Wedi dweud hyn, arsylwyd effaith positif wrth defnyddio'r dull yma yn y dosbarth. Yr hwn yw cyfyngiadau arsylwi, efallai gwelwyd effaith gwahanol i'r un dull y ddiwrnod canlynol.

Adfyfrio, gwerthuso a camau nesaf

Wrth adfyfrio ar yr achos critigol rwyf am defnyddio model beirniad wedi adfyfrio (BWA). Cyflwynwyd y ddogfen BWA yn yr atodiadau (1.1). Yn ystod y wers, lle arsylwais yr achos critigol, roeddwn yn teimlo fod yr athrawes mewn reolaeth o'r sefyllfa ac wedi paratoi cynllun y wers. Roedd y techneg o cwestiynu yn un oedd yn amlwg yn gyfarwydd ac yn teimlo yn cyfforddus i'r addysgwr ac i'r dysgwyr. Y teimlad fwyaf oedd o amgylch yr amser aros ar ol gofyn cwestiwn yn benodol i plentyn A. Gall yr amser aros yna fod wedi achosi pryder neu teimlad anghyfforddus yn y dosbarth, ond, oherwydd y ffordd wnaeth yr addysgwr ffocysu ar yr unigolyn roedd plentyn A yn digon cyfforddus i gwario'r amser i tynnu'r ateb o'i gof. Techneg cwestiynu oedd y sbardun yn fy marn i, yr achos critigol, yr hyn a chafodd yr effaith fwyaf ar y wers, ac fe oedd yn achos positif. Mi wnes i arbrofi gyda gwahanol mathau o nodiadau, megis, sociograms, tafleni bluchau tic, gan defnyddio fideos o wersi ar y we. Nodiadau ar bapur o'r hyn a welais a clywais oedd yn fwyaf effeithiol. Nesaf roedd angen llenwi'r nodiadau arsylwi a'r tafleni BWA, roedd hyn yn broses fuddiol a oedd yn helpu trefnu fy meddyliau a casgliadau.

Roedd yr adran gwerthuso a dadansoddi yn rhoi syniadau o le y fyddai eisiau datblygu ac ymchwilio yn fwy. Rhaid cyfaddef, wrth edrych nol, mi fyddai wedi dewis dau adran i ymchwilio o'r man cychwyn yn lle gwerthuso sawl testun ac yna gorffod dewis a dethol adran ffocws yn hwyrach yn y broses ymchwil.

Mae e'n amlwg fod cwestiynu yn testun le hoffwn datblygu sgiliau fy hun. Ond beth wnaeth taro a codi cwestiynau oedd y ffordd cafodd y testun crefyddol a moesegol ei drin, roedd y sgwrs a'r wers yn cael ei tynnu nol i drafod meini prawf y dasg yn hytrach na hwyluso meddyliau y dysgwyr mewn modd fwy rhydd. Roedd yna rhesymau gyda'r addysgwr am wneud hyn, pryder amser oedd yr un fwyaf. Serch hyn, mae crefydd a moesau a fel maent

yn cyfuno a llais y plentyn yn testun a hoffwn ymchwilio fwy. Mae syniadau yn datblygu ar ochr gwybodaeth pellach, megis, Neil Hawkes, (2003) How to inspire and develop positive values in your classroom, Magaret Collins (2008) Global citizenship for young children. Hoffwn wneud fwy o ymchwil tu fewn awyrgylch addysgu ar y ddwy adran yma.

Mae'r profiad o arsylwi yn gyfranol ac yn ddi-gyfranol wedi cyfranu yn fuddiol tuag at fy mhrofiadau proffesiynol. Trwy ymchwilio llenyddiaeth mae e'n llai debygol eich fod yn arsylwi neu dadansoddi mewn modd gogwyddo, wrth darllen yn eang gwelais fod yna dystiolaeth yn gwrthbrofi unrhyw rhagfarnau oedd yna ac hefyd tystiolaeth oedd yn cytun. Dyna bwrpas fod yn ymarferydd adfyfyriol i dadansoddi wrth edrych o gwahanol safbwyntiau. Mae'r broses ei hun yn wers ac yn annog chi i feddwl am yr hyn yr ydych yn ystyried yn bwysig yn y proffesiwn addysgu.

"What is most important is that teaching is visible to the student, and that the learning is visible to the teacher. The more the student becomes the teacher and the more the teacher becomes the learner, then the more successful are the outcomes. This explanation of visible teaching relates to teachers as activators, as deliberate change agents, and as directors of learning. This does not mean they are didactic, spend 80 percent or more of the day talking, and aim to get through the curriculum or lesson come what may. Effective teaching is not the drilling and trilling to the less than willing".

(John Hattie, 2009, tud 25)

Casgliadau

Wrth adfyfyrio ar y broses, mae yna camau i ystyried wrth ceisio astudio achos critigol. Mi fyddwn yn benderfynol o'r cychwyn ac yn pwysleisio pwysigrwydd trefn yr ymchwil. Mae'r broses o dadansoddi yn un mae rhaid ymarfer yn gyson. Mae'r profiad o arsylwi ac astudio achos critigol wedi cyfrannu at y safonau profesiynol mewn sawl modd. Dim lleuaf y cyfle i cynyddu gwybodaeth, sgiliau arsylwi a dadansoddi ac hefyd i ddatblygu fy nealltwriaeth o disgwyliadau addysgwyr ac hefyd dysgwyr. Fel athro dan hyfforddiant teimalf fy mod yn gweithio tuag at y safonau ac yn disgwyl fy mod i'n cael fy asesu yn seiliedig ar y safonau yma er mwyn ymuno â'r proffesiwn. Gwelwn fod y cwricwlwm newydd ynghlwm a'r safonau ac fod y pasbort dysgu proffesiynol yn ffordd o gefnogi a brofi yr hyn yr wyf yn dysgu ar y daith.

Cyfrif geiriau – 4178.

Atodiadau

 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David	Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities
--	--

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: Creu poster cyngierdd Bwlchgarnach.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Undod, plant yn helpu eu gilydd, parchus. Pawb ar dasg.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Tasg ffocus, creu poster. Amcanion y wers ynglir, cyd-destun wedi cael ei esbortio i lawb.
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Dangosir poster cyflawn. Aseu posteri fel esiamplau. creu un fel dosbarth gyntaf o'n creu un yn unigol.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Gwaith ysgafnodedig yn herio, llawer o wybodaeth i gynnwys. Lle i fod yn greadigol hefyd trwy defnyddio o luniau a cynllunio tudalen.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa

Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Cwestiynnu dealltwriaeth ar lafar trwy
creu poster fel dosbarth. Asesu poster cedi ei
gorffen, dilyn bren cywër.
Traffod y cyddestun, plant yn cael cwestiynnu
atirawes heb beirniadaeth.
Hunan asesu wrth ddyg.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Mathau o cwestiynnu.
Defnydd ar llais, taith, hanner.
Rhedaeth heb geiriau.
Defnydd o clod ar effaith cafodd.
Amser aros, grynodedgar.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/19. Prynhawn.

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):

Profiad / Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Positif, plesems, hysl i bawb. Cadarnhaol
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Cwestiynnu Kenid! tasg ffocws rheolaeth Llawr, symudiad, ymateb. Asesu ar gyfer dysgu Asesu ar y cyd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Anrwydd asesiad ar gwaith y dosbarth. Hysmwr yn y dosbarth cyfnewtihad positif a'i effaith. rheolaeth heb geiriau Amser aros. - Effaith crefydd neu Mwsal? pwyntau clod.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Fwy o bwyslais ar wostynni y resymau tu ôl y gwasanaeth. Fwy o hyder i drafod crefydd neu fwy o wybodaeth? Ymhwithio ról crefydd a Mwsal yn yr amser presenol. Clod yn y dosbarth, wigchiom penodol, effaith ar y dosbarth - positif.
Y profiad newydd / Transformed experience	



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19.

Manylion y wers: Creu llun o Aled Afal, rhaid creu cefndir i'r llun sydd yn dangos yn glir lle mae Aled. Plant yn cael dewis ble mae Aled yn myd.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Dosbarth cyfan yn canolbwyntio. Aethraies yn rheoli trwy cwestiynau.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Nod y wers yn glir.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Plant yn cael cyfle i asesu gwaith y plant a wnaeth eu llunian ddoe. "Ble mae Aled Afal yn y llun hyn" agyb. Disgwyliadau glir ynglun a sut i greu llun da.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Myfyrwyr yn deall y wers. Targ yn hysbysu gan lawr i'w oedd yn dewis lleoliad y llun. Yr unig peth gall rhwystro oedd y dychymug, felly sawl enghraifft o lleoliadau wedi eu rhannu gyda'r grŵp.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Dosbarth yn asesu gwaith eu gilydd ac yn egluro y rhesymau am eu adborth, hyn yn dangos dealltwriaeth.

Cwestiynau effaithol, agored a caeedig.

Asesiad gwaith wrth ar ddes i rhoi cyfle i wellat lluniau tny adio mynyddau i llun plant yn hunan asesu ac yn asesu gwaith eu gilydd.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Sgiliau cwestiynau.

Defnydd o llais a lleoliad.

Amser aros. 4/5 eiliad wrth ffocysu ar un pleityn yn unig.

Defnydd o clod.

Rheolaeth y dosbarth - curo dnylo, dnylo ar y pen agyb.

Cyswdeu.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Athrawes yn dilyn y wers, plant yn ymateb yn effeithiol. Di-gyffro, wedi eu diddarddebu.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Cwestiynnu effeithiol strwythur y wers. Aseu ar gyfer dysgu rhedlaeth.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Llais a symudiad. Modd o gyfarthwedd. Cynllun y wers cyflwyniad ar ddech, strwythur.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Rhedlaeth ar y tasgan gochwanegol.
Y profiad newydd / Transformed experience	



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: Trawsglwyddo llun Aled Afal i'r côt a copïo llun ar bapur.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Ymroddgar. Plant yn fywio wrth ateb y cwestiynau. Amyneddgar. Plant yn helpu eu gilydd wrth darg.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Nod yn glir. Tasg yn glir, un ffocws yn unig.
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ydyn, doedd dim achos i'r plant cwestiynau darg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd y darg yn henol oherwydd roedd pawb yn cofio gwahandol elfennau ar llun, cofio lleoliadau gurtynghau llun mewn gwahandol ffyrdd creadigol, ffocysu ar darg.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Gwestiynnu effeithiol - Esbonio'r plant y rhesymau ar y gwahandol elfennau a'r llun - megis 'pan mae llun blyddyn ar yswal?' plant yn egluro taw llun ried Afal yn farch yw e. Creu 'context' cyd-destun, lluniau ni fel babis ar y wal agyb. Plant yn creu storiâu eu hun i helpu cofio'r llun.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Gwestiynnu effeithiol.
Hunan asesiad.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 2/10/19. yb.

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Positif, newn rhedlaeth, cyffroas
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Cwestiynnu Aseid ar gyfer dysgu sbwythur y wers. Nid a ddisgwyddan clir.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Llais rhedlaeth y dosbarth. Datblygiad iaitn - ailadrodd.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	un dam ar ddisg. Fel i cadw ddiabed pawb, cadw nhw wrth ddisg tra bod tasgan orail yn bwnu nhw, megis lego.
Y profiad newydd / Transformed experience	



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19.

Manylion y wers:

Plant yn creu sgrïpt i annog pobl i deithio i'r gofod. Ffeithiau i gyfeithu yn gyntaf.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Weddi plesens, plant yn siarad neu'n llais isel, dan gweiddi, dan llawen o gnydro. Plant yn gaulbwyntio ar y mugat.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Un pwrpas clir - creu sgrïpt yn unig. Taflen ffeithiau i helpu gyda'r gybodaeth i gynnwys. Nod y wers wedi ei rhannu ar bapur ac ar lath.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Plant ddin yn glir sut i greu sgrïpt dda. Sawl plentyn yn cael trafferth i ddechrau.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Pob myfyriwr yn ceisio ddilyn y wers, rhai yn cael trafferth gyda'r technoleg ac hwyd y techneg o ysgnifennu sgrïpt.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa

Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Gofyn cwestiynau i rhai o ddysgyblau.
Grŵp bach o blant (4-5) yn gweithio yn
effeithiol iawn fel grŵp o dan arweiniad
agos yr athro.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Cwestiynau

Hechyd yr athro / symudiad

A cyflwyno nod y wers.

Asesu dealltwriaeth.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/19.

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimlo fod y plant yn teimlo'n rhwystredigaeth (frustrated).
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	- Plant ddim yn siŵr beth oedd y dasg, na sut i gyflawni'r dasg yn llwyddiannus. - Cwestiynnu ddim yn effeithiol o ran gofyn os yw pobw yn deall y dasg. - Technoleg wedi rhwystro ~~the~~ rhai o'r plant
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Diwylliant y dosbarth. Agwedd da gyda'r plant tuag at y weis. Strythur y weis - Nôd, tasg, asesu. Plant yn gweithio newn grŵp bach yn ymateb yn dda i'r broses.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Defnydd o thechnoleg - gluniadur. Eglurhâd o'r nôd. Mathau o cwestiynnu'r plant. Engheifftiau.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Douglas Barnes, (1976), From Communication to Curriculum, Penguin Books.

British Educational Association. Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018)

Cambridge Primary Review (2010) Children, their World, their Education: Final Report and Recommendations of the Cambridge Primary Review, Routledge

Coe et al, (2014), What makes great teaching? Durham University

Margaret Collins, (2008), Global Citizenship for young children, Sage.

Communicationtheory.org/hawthorne-effect/

Yr Athro Graham Donaldson CB, (2015), Dyfodol Llwyddiannus. Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.

Estyn.gov.wales

Estyn, (2014), Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Harry Fletcher-Wood, (2016), Ticked Off.

Fyysgolleol.cymru.gov.uk

Geiriadur Termau Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Philip Graham (2008) Susan Isaacs and the Malting House School, Vol,43, issue 1. Journal of Child Psychotherapy.

Neil Hawkes, (2003), Inspire and Develop Positive Values in Your Classroom, LDA.

Sally Holland, (2016) Children's Commissioner for Wales A Plan for all Children and Young People: 2016–19 Championing children and young people's human rights

Raúl Alberto Mora , Simon Weaver, Laura Mae Lindo, (2015) Editorial for special issue on education and humour: Education and humour as tools for social awareness and critical consciousness in contemporary classrooms.

<https://europeanjournalofhumour.org/index.php/ejhr/article/view/75/pdf>

Nazlia Omar, Syahidah Sufi Haris, Rosilah Hassan, Haslina Arshad, MasuraRahmat, Noor Faridatul Ainun Zainal, Rozli Zulkifli, (2011), Automated analysis of exam questions according to bloom's taxonomy, UKM Teaching and Learning Congress 2011.

Alan Pritchard (2009) Ways of Learning, second edition, Routledge.

Keith S Taber, (2007), Classroom-based Research and Evidence-based Practice, Sage.

David Tripp, (1993), Critical Incidents in Teaching, Routledge.

Wales Online, (2019), "Mental health: Counselling sought by 11,000 Welsh youngsters", date accessed 26/10/19.

https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50151883?intlink_from_url=&link_location=live-reporting-story

Colin Wringe, (2007), Moral Education Beyond the Teaching of Right and Wrong. Springer.

.